# Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau

**14 Mehefin 2023**

Yn Bresennol: Mrs J James (Cadeirydd)
Cynghorydd D Clements, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Dr R Plummer a'r Cynghorydd A Wilcox.

(Cyfarfod Rhithiol: 2.00pm – 2.55pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd R Jordan, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall a'r Cynghorydd M Wiggins.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

a) Ailddosbarthu'r ddolen i'r fideo gan y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru (Cofnod 6) Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau 15/02/2023
Gofynnodd y Cadeirydd am i'r fideo gael ei rannu â phob Aelod gan ei fod yn rhoi crynodeb defnyddiol o'r heriau amrywiol a wynebir gan bob un o'r tri Parc Cenedlaethol. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i wneud hyn. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai adborth gan yr Aelodau ar y fideo hwn yn ddefnyddiol ac yn gymorth i'r dyfodol.

b) Hyfforddiant ar Seiberddiogelwch (Cofnod 7a) Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau 05/02/2023
Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol dros Seiberddiogelwch nad oedd wedi gallu cael mynediad i'r hyfforddiant perthnasol a'i bod mewn cysylltiad â'r adran Technoleg Gwybodaeth i ddatrys y mater cyn i'r cyswllt hyfforddiant gael ei ddosbarthu i'r Aelodau eraill.

**Nodwyd.**

## 5. Diweddariad ar Gefnogi a Datblygu Aelodau

[Nid oedd y Cynghorydd A Wilcox yn bresennol gydol yr eitem hon.]

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a gyflwynodd ddiweddariad ar faterion oedd yn ymwneud â Chefnogi a Datblygu Aelodau gan gynnwys gwybodaeth am y rhaglen sefydlu Aelodau, Adolygiadau o Ddatblygiad Personol, y Cynllun Hyfforddiant, a Phresenoldeb Aelodau. Hefyd cyflwynodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Arweinydd Strategol ar Gynhwysiant, Amrywiaeth a Rhagoriaeth Llywodraethu oedd wedi'i benodi'n ddiweddar gan Lywodraeth Cymru i weithio gyda phob un o'r wyth tirwedd dynodedig yng Nghymru, i edrych yn fewnol ar y mesurau llywodraethu sydd gan bob tirwedd, ac i gynorthwyo'r Aelodau gyda materion megis hyfforddiant a datblygiad.

Ar y pwnc Adolygiadau o Ddatblygiad Personol, ac ar y sail bod yr Aelodau yn araf yn llenwi eu hadolygiad, dywedwyd efallai y byddai angen newidiadau i'r broses hon a'r amseru, a gofynnwyd am adborth yr Aelodau ar y mater hwn. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r Adolygiadau o Ddatblygiad Personol a chytunodd yr Aelodau bod y broses bresennol yn achosi lefel o ddyblygu gan fod angen iddynt hefyd lenwi Adolygiad ar gyfer naill ai Llywodraeth Cymru neu Gyngor Sir Penfro, a bod pob proses â gofynion gwahanol. Awgrymwyd y dylid datblygu proses glir a symlach o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro oedd yn gweithio mewn cytgord â'r adolygiadau eraill ac yn digwydd ar amser gwahanol i helpu i reoli llwyth gwaith yr Aelodau.

Ymatebodd y Prif Weithredwr drwy egluro'r gwahaniaeth rhwng y tri adolygiad, ac eglurodd, er y byddai dull o weithredu ar y cyd yn effeithlon, y byddai hynny yn her gan fod pob adolygiad yn cyflawni diben gwahanol. Cytunwyd bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â Chyngor Sir Penfro i glustnodi unrhyw ddyblygu er mwyn symleiddio'r broses.

Aeth y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd rhagddi i sôn am y Cynllun Hyfforddi, ac eglurodd pob adran o'r cynllun a'r blaenoriaethau a glustnodwyd. Cadarnhaodd yr Aelodau eu bod yn hapus â'r cynllun hwn, ac awgrymwyd bod yr Aelodau yn pleidleisio ar flaenoriaethau grŵp a blaenoriaethau unigol yn y dyfodol i sicrhau bod y cynllun yn unol ag uchelgeisiau'r Aelodau o ran hyfforddiant.

Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr Aelodau bod yr Awdurdod wedi derbyn gwybodaeth yn ddiweddar oddi wrth Lywodraeth Cymru yn nodi eu bod wedi clustnodi tri maes hyfforddiant y byddai'n ofynnol i'r Aelodau eu cwblhau. Y meysydd hynny oedd 'Mynd i'r Afael â'r Argyfyngau Natur a Hinsawdd', 'Llywodraethu Effeithiol' a 'Chyflwyniad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant'. Cadarnhawyd y byddai'r

sesiynau hyfforddi hyn yn cael eu cynnal yn ystod tymor yr hydref 2023 a hynny ar-lein.

Dywedodd yr Aelodau, gan y byddai hyfforddiant Llywodraeth Cymru yn cael ei drefnu gan ddarparwyr allanol, y dylid addasu'r hyfforddiant i'r Awdurdod i sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i'r Aelodau. Cytunodd yr Arweinydd Strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Rhagoriaeth Llywodraethu â'r pwyntiau hyn a chadarnhaodd ei bod yn anelu at wneud yr hyfforddiant mor berthnasol â phosibl.

Dywedodd y Cadeirydd bod yr adroddiad yn nodi bod presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd yn 2022/23 yn 92% tra bod presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi yn 73% (55% yn 2023). Cydnabuwyd bod y ganran is am y flwyddyn hyd yn hyn i'w briodoli yn ôl pob tebyg i'r ffaith bod digwyddiadau megis Seminar y Tri Parc yn gofyn am bresenoldeb yn bersonol.

Ar nodyn cyffredinol, gofynnodd Aelod am i ddogfen gael ei llunio yn cynnwys dyddiad pob pwyllgor am y flwyddyn. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i hyn.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **PENDERFYNWYD**:

a) nodi'r adroddiad
b) cytuno ar y Cynllun Hyfforddi Aelodau fel y'i nodir yn adroddiad Rhif 02/23 a'i gyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w fabwysiadu.

## 6. Unrhyw Fater Arall

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau ei bod wedi dod i'r penderfyniad i roi'r gorau i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a gynhelir cyn hir, ond byddai'n parhau i fod yn Aelod. Ychwanegodd ei bod wedi cyflwyno enwebiad ar gyfer y Cadeirydd nesaf a dymunodd y gorau i'w holynydd yn y swydd.

**Nodwyd.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023 heb eu diwygio.